

Y Cyngor Optegol Cyffredinol

Canllawiau ar gyfer darparwyr DPP

Hydref 2021

General Optical Council



Cynnwys

Cyflwyniad	2
Eich rôl fel darparwr DPP	5
Datblygu cynnwys DPP	8
Hysbysebu a chofnodi sesiynau DPP	11
Archwilio darparwyr DPP	12
Atodiad 1 – Meysydd a’r Safonau Ymarfer	13
Atodiad 2 – Safonau ar gyfer darparwyr DPP	14
Atodiad 3 – Fformatau enghreifftiol o DPP	17

1.

Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer unrhyw unigolyn neu sefydliad sydd â rôl yn datblygu a darparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i optometryddion ac optegwyr cyflenwi sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC).

Mae'r canllaw i ddarparwyr yn gweithredu fel fframwaith i roi dealltwriaeth glir i chi o'r hyn a ddisgwylir gennych fel rhan o'ch rôl fel darparwr neu ddarpar ddarparwr ond nid yw'n ceisio manylu ar sut y gellid gwneud hyn ym mhob amgylchiad. Mae hyn er mwyn caniatáu hyblygrwydd i ddarparwyr fodloni gofynion mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw a'u buddiolwyr – gweithwyr optegol proffesiynol.

Os ydych wedi darparu DPP yn y gorffennol o dan gynllun Addysg a Hyfforddiant Parhaus (CET) blaenorol y Cyngor Optegol Cyffredinol, efallai na fydd angen i chi ddarllen y ddogfen hon i gyd, ond byddem yn argymhell eich bod yn gwneud hynny gan y gallai rhai o'ch cyfrifoldebau fod wedi newid fel rhan o'n rhaglen ddiwygio DPP.

1.1 Beth yw pwrpas DPP?

Mae DPP yn golygu dysgu, hyfforddiant, addysg neu ddatblygiad y mae

cofrestrai yn ymgymryd drwy gydol ei yrfa broffesiynol i ddatblygu ei allu proffesiynol, gwneud penderfyniadau clinigol a rhesymu, er mwyn rhagweld a diwallu anghenion cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn y dyfodol, parhau'n ddiogel i ymarfer a gwella hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol cymwysedig a chofrestredig, gan gynnwys optometryddion ac optegwyr cyflenwi, yn ymgymryd â'u DPP fel mater o drefn, yn cofnodi ac yn myfyrio arno i wneud yn siŵr y gallant ddangos eu hymrwymiad i'w datblygiad proffesiynol eu hunain er budd y cyhoedd a chleifion. Mae cynllun DPP GOC hefyd yn cynnwys gofynion ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol, i ailddilysu eu sgiliau'n rheolaidd drwy gynnal y sgiliau sylfaenol craidd sydd eu hangen i fod yn addas i ymarfer, ochr yn ochr â chael gwybodaeth a sgiliau newydd.

1.2 Pwy sydd angen ymgymryd â DPP?

Rhaid i'r holl optometryddion ac optegwyr cyflenwi sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol (cofrestreion) ymgymryd â DPP. Nid oes yn rhaid i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru na busnesau sydd wedi cofrestru ymgymryd â DPP.

1.2.1 Pa mor aml y mae angen i gofrestreion ymgymryd â DPP? Rhaid i'r gofrestreion gwblhau a chael nifer penodol o 'bwyntiau' dros gyfnod o dair blynedd (a elwir yn gylch).

1.2.2 Beth yw pwyntiau DPP?

Pwyntiau DPP yw'r gwerth a briodolir i sesiwn ddysgu gan ddarparwr y sesiwn honno, yn seiliedig ar hyd, rhyngweithedd a chyfoesedd. Mae rhagor o wybodaeth am ddyrannu pwyntiau ar gael yn adran 3 y ddogfen hon.

1.2.3 Sawl pwynt y mae'n rhaid i gofrestrai eu cwblhau?

Mae lleiafswm y pwyntiau y mae'n rhaid i gofrestrai eu cael yn amrywio, yn dibynnu ar y math o gofrestrai ydyn nhw a phryd wnaethon nhw ymuno â'r gofrestr yn ystod y cylch. Mae tabl cyfeirio cyflym sy'n nodi'r isafswm pwyntiau fesul categori, ar gyfer y rheini sydd ar y gofrestr ddechrau'r cylch wedi'i nodi isod.

Categori cofrestrai	Isafswm y pwyntiau i'w cael dros 3 blynedd
Optometrydd	36 pwynt, ac mae'n rhaid i o leiaf 18 pwynt fod mewn gweithgareddau DPP rhyngweithiol AC o leiaf 18 pwynt gan ddarparwyr sydd wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor Optegol Cyffredinol
Optegydd cyflenwi	36 pwynt, ac mae'n rhaid i o leiaf 18 pwynt fod mewn gweithgareddau DPP rhyngweithiol AC o leiaf 18 pwynt gan ddarparwyr sydd wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor Optegol Cyffredinol
Optegydd cyflenwi gyda chofrestriad arbenigedd optegydd lensys cyffwrdd1	36 pwynt, ac mae'n rhaid i o leiaf 18 pwynt fod mewn gweithgareddau DPP rhyngweithiol AC o leiaf 18 pwynt gan ddarparwyr sydd wedi'u cymeradwyo gan GOC A rhaid i o leiaf 18 pwynt fod ym maes arbenigedd optegwyr lensys cyffwrdd
Optometrydd gydag arbenigedd cyflenwi ychwanegol, rhagnodi atodol a/neu arbenigedd rhagnodi annibynnol2	36 pwynt, ac mae'n rhaid i o leiaf 18 pwynt fod mewn gweithgareddau DPP rhyngweithiol AC o leiaf 18 pwynt gan ddarparwyr sydd wedi'u cymeradwyo gan GOC A rhaid cael 18 pwynt ychwanegol yn eu maes arbenigedd (cyfanswm o 54 pwynt)

Gall gofrestreion, wrth gwrs, ragori ar yr isafswm pwyntiau hwn os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Nid oes uchafswm o ran faint o DPP y caniateir iddynt ei wneud o fewn cylch DPP.

Os nad yw unigolyn wedi cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol ar hyn o bryd ond ei fod wedi cofrestru o'r blaen, rhaid iddo gwblhau DPP yn unol â chynghor tîm cofrestru'r Cyngor Optegol Cyffredinol os yw'n dymuno rhoi ei enw eto ar gofrestr y Cyngor Optegol Cyffredinol.

Pennir y pwyntiau sy'n ofynnol gan y Cyngor Optegol Cyffredinol ar sail pro rata ar gyfer gofrestreion sy'n ymuno â'r gofrestr ran o'r ffordd drwy'r cylch, ac mae'r gofrestreion yn cael gwybod beth yw'r ffigur hwn pan fyddant yn ymuno â'r gofrestr.

¹ Math o gofrestriad arbenigedd yw hwn sy'n agored i optegwyr cyflenwi sydd â chymwysterau addas. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan GOC.

² Math o gofrestriad arbenigedd yw hwn sy'n agored i optometryddion sydd â chymwysterau addas. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan GOC.³

1.3 Mae'n rhaid i feysydd dysgu penodol y mae angen i'r cofrestreion eu cynnwys ym mhwyntiau DPP y Cofrestrai gael eu cyflawni mewn pedwar maes craidd³ sy'n grwpio'r Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi gyda'i gilydd.

Y Safonau Ymarfer yw'r llinell sylfaen ar gyfer ymddygiad proffesiynol y mae'n rhaid i bob cofrestrai sydd wedi cymhwyso'n llawn lynu wrthi. Y pedwar maes craidd yw:

- Proffesiynoldeb.
- Cyfathrebu.
- Ymarfer clinigol.
- Arweinyddiaeth ac atebolrwydd.

Mae angen o leiaf un pwynt ym mhob maes craidd. Hefyd, rhaid i optometryddion gydag arbenigedd cyflenwi, rhagnodi ategol neu ragnodi annibynnol ychwanegol ac optegwyr cyflenwi sydd â chofrestriad arbenigol lensys cyffwrdd sicrhau bod o leiaf 18 pwynt o'u gofyniad isafswm pwyntiau mewn pumed maes – 'DPP arbenigol'. Bwriad y maes hwn yw cynnwys gwybodaeth a sgiliau sy'n benodol i'r arbenigedd perthnasol, i'r graddau na fyddai'n berthnasol i gofrestryddion heb arbenigedd. Mae rhagor o wybodaeth am DPP sy'n dod o dan y pumed maes ar gael yn adran 3 y ddogfen hon.

Gellir defnyddio chweched maes, 'Risg cyfredol', yn ôl disgrisiwn GOC i alluogi cofrestreion, neu is-adran o gofrestreion, ymgymryd â dysgu wedi'i dargedu mewn ymateb i risg glir o fewn y proffesiynau⁴. Os bydd y GOC yn dewis defnyddio'r maes hwn, bydd hynny yn dilyn ymgynghoriad a thrafodaeth gyda darparwyr er mwyn iddynt allu teilwra'r dysgu (os byddant yn dewis gwneud hynny) a byddwn yn cysylltu â phob darparwr yn ffurfiol drwy e-bost cyn gynted â phosibl cyn ei gyflwyno.

Gall gofyniad pwyntiau rhyngweithiol cofrestrai ddeillio o ddysgu priodol mewn unrhyw un o'r meysydd.

1.4 Pwyntiau rhyngweithiol

Pwyntiau rhyngweithiol yw'r rhai a geir drwy weithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill, neu rhyngweithio â nhw. Rydym yn mynnu bod yn rhaid i gofrestreion gael y pwyntiau hyn gan fod llawer o ddysgu gwerthfawr yn dod o weithio a myfyrio gyda chymheiriaid, ac i sicrhau bod ymarferwyr mwy ynysig yn gallu manteisio ar gydweithio.

Gall sesiwn DPP fod yn rhyngweithiol ni waeth ym mha faes y mae'n perthyn.

Er mwyn gallu cyfrif tuag at gyfanswm rhyngweithiol cofrestrai, rhaid i'r sesiwn DPP fod yn un o'r canlynol:

- sesiwn wyneb yn wyneb, sy'n gofyn am bresenoldeb corfforol gan gyfranogwyr.
- sesiwn ar-lein, sy'n gofyn am gyfranogiad ar unwaith/amser real.
- rhyngweithio'n ystyrllon â chymheiriaid, ar unwaith (a allai gynnwys ystafell sgwrsio) neu heb fod ar unwaith (bwrdd negeseuon neu gadwyn e-bost), mewn ymateb i ysgogiad addysgol a roddir gan y darparwr DPP.

Fel darparwr DPP, dylech nodi ymlaen llaw a yw eich sesiwn yn gymwys i gael ei chyfrif tuag at gyfanswm pwyntiau rhyngweithiol cofrestrai a gwneud hyn yn glir yn eich hysbysebion.

3 Gweler atodiad 1

4 Nid yw hyn yn rhywbeth y mae'r GOC yn disgwyl ei ddefnyddio'n aml a dim ond ar ôl trafod gyda darparwyr ynghylch beth fydd yn ofynnol y bydd yn cael ei gyflwyno.

Enghreifftiau o pryd y gellid ei gyflwyno yw yn dilyn newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar bob cofrestrai; yn dilyn achos addasrwydd i ymarfer proffil uchel sy'n tynnu sylw at fylchau mewn gwybodaeth ar draws y proffesiynau; neu mewn ymateb i argyfwng cenedlaethol sy'n galw am uwchsgilio. Sylwch nad yw'r enghreifftiau hyn yn hollgynhwysfawr.

2.

Eich rôl fel darparwr DPP

Fel darparwr DPP i gofrestreion GOC, bydd angen i chi sicrhau bod y sesiynau rydych chi'n eu datblygu a'u darparu yn strwythuredig, yn hygyrch, yn berthnasol ac yn ymgysylltu er mwyn sicrhau ansawdd a denu dysgwyr. Bydd angen i chi hefyd roi rhywfaint o wybodaeth i'r GOC am y sesiynau rydych chi'n eu darparu at ddibenion sicrhau ansawdd.

Mae gan ddarparwyr DPP safle breintiedig o ran darparu dysgu i gofrestreion GOC, gan fod eu sesiynau'n werth mwy o bwyntiau na'r rhai a ddarperir gan sefydliadau nad ydynt wedi cofrestru gyda'r GOC fel darparwyr, ac felly gallant fod yn fwy manwl, yn fwy diddorol a deniadol i gofrestreion. Y cam cyntaf ar y daith hon yw cofrestru fel darparwr DPP.

2.1 Cofrestrreion tro cyntaf / statws darparwr dros dro

Bydd raid i'r rhai sy'n dymuno cael eu rhestru fel darparwyr DPP am y tro cyntaf gyflwyno cais drwy'r tîm DPP. Ar ôl eu rhestru, gall darparwyr gyflwyno sesiynau i gofrestrreion ar unwaith, ond bydd angen iddynt gael o leiaf y deg cyntaf o'r rhain wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor Optegol Cyffredinol cyn eu cyflwyno. Mae'r lefel hon o gymeradwyaeth uwch yn caniatáu i'r GOC sicrhau ansawdd allbwn y darparwyr a sicrhau eu bod yn darparu dysgu addas o ansawdd da i'r rhai sydd wedi cofrestru. Bydd darparwyr sy'n ddarostyngedig i'r gofyniad ychwanegol hwn yn dal statws darparwr 'dros dro' nes bydd y GOC yn fodlon â'u darpariaeth, ac ar yr adeg honno byddant yn cael eu huwchraddio i statws darparwr 'llawn'. Mae'r broses o wneud cais am gymeradwyaeth ymlaen llaw i ddigwyddiadau unigol tra bo gan ddarparwr statws dros dro wedi'i nodi isod.

2.1.1 Cam 1 – gwneud cais i fod yn ddarparwr DPP

Er mwyn bod yn ddarparwr DPP, bydd angen i chi lenwi'r ffurflen briodol (sydd ar gael ar ein gwefan) a'i dychwelyd, ynghyd â'r ffi darparwr blynyddol o £45 i'n tîm DPP, a fydd yn cydnabod ei fod wedi'i derbyn o fewn tri diwrnod gwaith. Bydd eich cais wedyn yn cael ei drosglwyddo i'n panel o gymeradwyr DPP i'w ystyried. Byddant yn ymateb i chi o fewn deg diwrnod gwaith ar ôl derbyn y y ffi a'r ffurflen, i roi gwybod naill ai bod eich cais wedi'i brosesu a bod statws darparwr dros dro wedi'i roi, neu i ofyn i chi am ragor o wybodaeth i gefnogi eich cais.

Ar ôl i chi gael statws darparwr dros dro, gallwch ddechrau cyflwyno ceisiadau i gymeradwyo sesiynau/digwyddiadau DPP unigol ymlaen llaw. Bydd eich sesiynau/digwyddiadau ond yn gymwys ar gyfer pwyntiau DPP ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo, ac ni ddylech hysbysebu na chynnig DPP i gofrestrreion heb gael cymeradwyaeth. Does dim modd i chi gael cymeradwyaeth ôl-weithredol ar gyfer digwyddiadau sydd wedi'u cynnal yn barod.

2.1.2 Cam 2 – cyflwyno cais i gymeradwyo

sesiwn/digwyddiad DPP ymlaen llaw

Mae ceisiadau i gymeradwyo sesiynau/digwyddiadau ymlaen llaw

yn cael eu cyflwyno drwy blatfform MyCPD y GOC.

Byddwch yn cael mynediad i'r llwyfan hwn ar ôl llwyddo i ddod yn ddarparwr dros dro. Mewn cais am gymeradwyaeth ymlaen llaw, bydd angen i chi ddangos sut mae'r deilliannau dysgu ar gyfer eich digwyddiad/sesiwn yn berthnasol i'r meysydd (gweler adran 1.3) a sut rydych chi'n gweithio yn unol â'n Safonau ar gyfer darparwyr DPP (gweler atodiad 2 y ddogfen hon). Ar ôl i chi gyflwyno eich cais,

bydd yn cael ei roi i'r panel o gymeradwyr DPP a fydd yn adolygu'r wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi ac yn:

- cwblhau'r broses gymeradwyo o fewn deg diwrnod gwaith.
- defnyddio'r meysydd a'r Safonau Ymarfer i:
- benderfynu a yw'r canlyniadau a gynigir yn y cyflwyniad DPP yn cefnogi cynnal a datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar hyn o bryd i fod yn weithiwr proffesiynol cofrestredig.
- penderfynu a yw'r math o ddatblygiad proffesiynol parhaus a gynigir yn ffordd briodol o gyflawni'r canlyniadau a gynigir.
- penderfynu a yw cynnwys y DPP yn cyd-fynd yn briodol gyda'r meysydd a enwir a'r Safonau Ymarfer.
- cadarnhau bod y DPP yn berthnasol i'r cynulleidfaoedd proffesiynol a gynigir.
- cadarnhau bod y DPP yn cefnogi gwella safonau ymarfer proffesiynol a gofal cleifion.
- nodi a oes unrhyw beth yn y cynnwys arfaethedig nad yw'n berthnasol i'r arferion presennol neu a yw wedi dyddio, ac os felly, rhoi gwybod i'r darparwr DPP.
- nodi a oes unrhyw beth ar goll o'r cynnwys, sy'n berthnasol i'r ymarfer presennol ac, os felly, rhoi gwybod i'r darparwr.
- cadarnhau nad yw'r DPP yn gogwyddo o blaid cynnyrch penodol neu wedi'i ddylunio i hyrwyddo buddiannau ariannol neu fasnachol.
- cadarnhau ansawdd unrhyw ddelweddau neu ddeunyddiau a gyflwynir ymlaen llaw.
- adolygu'r cwestiynau amlddewis a gyflwynwyd.
- gwneud argymhelliad i gymeradwyo neu beidio â chymeradwyo.

Os caiff eich cais ei gymeradwyo, bydd y digwyddiad hwnnw'n parhau i gael ei gymeradwyo ar gyfer gweddi y cylch presennol, fel y gallwch ei gyflwyno ar sawl achlysur heb ofyn am gymeradwyaeth bellach. Fodd bynnag, os bydd y cynnwys yn newid, bydd angen i chi wneud cais eto.

Os gwrthodir eich cais, rhoddir rhesymau i chi pam. Os ydych yn anghytuno â'r penderfyniad i wrthod eich cais, gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad.

Ar ôl i chi lwyddo i gael cymeradwyaeth i o leiaf deg digwyddiad/sesiwn, efallai y byddwch yn gymwys i gael eich uwchraddio i statws darparwr llawn (gweler isod). Bydd hyn yn digwydd yn awtomatig, a byddwn yn cysylltu â chi i ddweud a ydych wedi bod yn llwyddiannus ai peidio. Wrth wneud y penderfyniad hwn, byddwn yn ystyried eich cyflwyniadau hyd yma ac unrhyw adborth a gafwyd gan gofrestreion (a/neu eraill). Mewn rhai amgylchiadau, efallai y byddwn yn dymuno gweld tystiolaeth ychwanegol gennych er mwyn gwneud y penderfyniad a byddwn yn rhoi gwybod i chi os byddwn.

2.2 Statws darparwr llawn

Mae statws darparwr llawn yn caniatáu i ddarparwr DPP gynllunio, datblygu a darparu eu cynnwys DPP heb orfod ceisio cymeradwyaeth gan y GOC ymlaen llaw, oherwydd eu bod wedi bodloni ein gofynion sicrhau ansawdd. Dyma'r statws y bydd y mwyafrif helaeth o ddarparwyr DPP yn gweithredu oddi tano. Yn yr un modd â statws darparwr dros dro, bydd statws darparwr llawn yn dal i fynnu bod y darparwr yn datblygu ac yn darparu dysgu o fewn y meysydd, ond byddir yn ymddiried ynddynt i sicrhau ansawdd mewnol cadarn i sicrhau bod eu cynnwys yn addas ac o ansawdd da.

Bydd y rheini sydd â statws darparwr llawn yn ei gadw am gyfnod amhenodol oni bai eu bod yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr o ddarparwyr, bod pryderon yn cael eu canfod yn dilyn archwiliad, neu eu bod yn methu â thalu'r ffi darparwr blynyddol pan fydd yn ddyledus.

2.3 Trefniadau pontio ar gyfer darparwyr CET blaenorol

Bydd sefydliadau a oedd yn ddarparwyr CET cofrestredig ar gyfer cylch 2019-2021 ac sydd wedi cyflwyno o leiaf ddeg sesiwn CET fel rhan o'r cylch hwnnw, yn cael statws darparwr llawn yn awtomatig ar gyfer y cylch DPP sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2022.

Bydd angen i'r sefydliadau hynny sydd wedi'u cofrestru'n hanesyddol fel darparwyr CET, ond nad oedd ganddynt gofrestrriad gweithredol ar gyfer cylch 2019-2021, wneud cais am gofrestrriad dros dro (gan arwain at gofrestrriad llawn).

2.4 Eich dyletswyddau fel darparwr

Mae'n hanfodol eich bod chi, fel darparwr cynnwys DPP i weithwyr gofal iechyd proffesiynol, yn cynnal safonau ymddygiad penodol. Mae'r rhain ar gael yn ein Safonau ar gyfer darparwyr DPP sydd wedi'u hatodi yn atodiad 2.

3.

Datblygu cynnwys DPP

Fel y nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, rhaid i'r holl gynnwys DPP ddod o fewn o leiaf un o'r pedwar maes (neu'r pumed maes arbenigedd os yw'n benodol i gynulleidfa o'r fath) a dylai hyn gael ei ystyried wrth gynllunio a dyfeisio dysgu. Mae'r meysydd wedi'u strwythuro'n fras o amgylch y Safonau Ymarfer, sef safonau ymddygiad a pherfformiad proffesiynol y Cyngor Optegol Cyffredinol, ac efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ymgynghori â'r rhain fel rhan o'r broses ddatblygu. Disgwylir i ddarparwyr fod yn gwbl ymwybodol o'r Safonau Ymarfer yn ogystal â'r gofynion sydd ar gofrestreion GOC mewn perthynas â DPP.

Gall sesiwn DPP gwmpasu hyd at uchafswm o ddau o'r pedwar maes craidd, ond dim ond os ydynt yn berthnasol i gynnwys gwirioneddol y sesiwn y dylech ddynodi meysydd, a gellir rhoi amser a sylw ystyrlon iddynt yn ystod y sesiwn. Bydd angen i chi ddangos sut mae cynnwys y sesiwn yn berthnasol i'r meysydd, er mwyn i chi allu cynnal eich prosesau rheoli ansawdd mewnol eich hun, cynghori darpar ddysgwyr yn unol â hynny, a rhoi sicrwydd i'r Cyngor Optegol Cyffredinol os gofynnir am hynny fel rhan o'n proses archwilio. Gallai methu â darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani i'w harchwilio beryglu cofrestriad parhaus eich sefydliad fel darparwr DPP.

Er mwyn gallu rhoi sicrwydd digonol i'r GOC, byddem yn disgwyl i chi gadw cofnodion o'r canlynol ar gyfer pob sesiwn DPP⁵ fel yr amlinellir isod.

Teitl y Sesiwn:

Gallai hyn fod yn rhywbeth byr sy'n tynnu sylw, sy'n amlgu prif ffocws y sesiwn.

Crynodeb o'r cynnwys:

Dylai hyn nodi'r hyn y bydd cofrestreion yn ei gwmpasu, pam a sut.

Gall fod ar ffurf nodiadau darlith, cwestiynau i'w gofyn, pwyntiau trafod, senarios a ddefnyddir, sleidiau a gyflwynir neu gynnwys arall i'w trafod. Bydd ffurf y cynnwys hwn yn dibynnu ar eich prosesau cofnodi mewnol eich hun ac ar y fformat (gweler isod).

Y meysydd sy'n berthnasol a'r rhesymau pam:

Rhaid datgan hyn i ddarpar fynychwyr cyn darparu, fel y gall y rhai sydd wedi cofrestru wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a yw'r sesiwn yn addas ar eu cyfer.

Cynulleidfaoedd targed:

Dylech ystyried yn ofalus a yw cynnwys eich sesiwn a'r deilliannau dysgu yn berthnasol i bob un o gofrestreion y Cyngor Optegol Cyffredinol, neu un neu fwy o is-setiau o gofrestreion. Ni fydd pob cynnwys yn berthnasol neu'n ddefnyddiol i bob un sydd wedi cofrestru. Ar gyfer sesiwn DPP sy'n perthyn i'r pumed maes (DPP arbenigol) rhaid i chi nodi pa arbenigedd neu arbenigeddau y mae'n addas ar eu cyfer.

Deilliannau dysgu:

Dylai'r rhain fod yn benodol, yn fesuradwy ac yn gyraeddadwy, cyn belled ag y bo modd, ac o nifer realistig ar gyfer hyd y sesiwn, gyda gwybodaeth am sut bydd cyflawni'r amcanion hyn yn cael ei asesu.

Dyddiad(au) cyflwyno arfaethedig a gwirioneddol:

Dylid darparu'r rhain fel ei bod yn glir pryd roedd sesiynau wedi'u cyflwyno ac a oedd rhai wedi cael eu canslo.

Tiwtor/hwylusydd:

Dylai'r person hwn fod â'r cymwysterau priodol a/neu fod yn brofiadol i gyflwyno'r sesiwn dan sylw.

Fformat cyflwyno:

Gellir darparu DPP mewn sawl ffordd.

Mae Atodiad 3 yn cynnwys rhai enghreifftiau o fformatau a faint o bwyntiau a allai fod yn briodol i'w dyrannu. Dylai darparwyr dros dro ddefnyddio'r enghreifftiau hyn fel canllaw i'w helpu i ddyrannu pwyntiau'n briodol. Bydd angen i chi gadw cofnodion o'r fformat a ddefnyddir.

Rhestr mynychwyr:

Dylai hyn gynnwys enwau a rhifau GOC y mynychwyr, er mwyn i chi allu rhoi cadarnhad ysgrifenedig o gwblhau i'r mynychwyr. Os yw'r sesiwn yn cael ei chyflwyno ar-lein, mae'n rhaid i chi allu darparu ystadegau ymgysylltu â mynychwyr, fel pan fydd mynychwyr unigol yn mewngofnodi ac allan.

Unrhyw newidiadau i'r sesiwn oedd eu hangen, a pham: Mae hyn yn cynnwys unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i strwythur, cynnwys neu gyflwyniad y sesiwn, a'r rhesymau drostynt ac a fyddant yn effeithio ar addasrwydd y sesiwn ar gyfer cynulleidfa a hysbyseb, y meysydd a ddyrannwyd neu'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer y sesiwn.

Pwyntiau ar gael:

Chi sydd i benderfynu faint o bwyntiau sydd ar gael ar gyfer sesiwn

a bydd yn dibynnu ar hyd y sesiwn, fformat y sesiwn a'r rhyngweithio. Bydd y rhan fwyaf o sesiynau yn gymwys am un pwynt, gyda dim ond y sesiynau byrraf yn cyfrif am lai (mae uchafswm o 0.5 pwynt ar gael ar gyfer unrhyw sesiwn rhwng

30 munud ond llai nag awr). Gall sesiynau mwy cymhleth sy'n para dros awr fod yn gymwys am hyd at dri phwynt. Ni all unrhyw sesiwn unigol fod yn werth mwy na thri phwynt.

5 Mae'r cofnodion hyn yn cwmpasu'r math o wybodaeth y byddem yn disgwyl ei gweld pe bai darparwr yn cael ei ddewis i'w archwilio ac felly dylai fod ar gael i'w harchwilio gan y GOC ar gais.

Rhyngweithedd:

Bydd angen i fynychwyr a'r GOC wybod a yw'r sesiwn yn cyfrif tuag at eu cyfanswm pwyntiau rhyngweithiol.

Adborth:

Byddem yn disgwyl i chi gadw cofnodion o unrhyw adborth a gafwyd am y sesiwn DPP (naill ai gan y cofrestrai yn uniongyrchol neu drwy MyCPD) a gallu dangos eich bod wedi ystyried yr adborth a sut rydych wedi neu sut y byddwch yn ystyried hyn wrth gynnal y sesiwn eto.

Cadarnhau presenoldeb:

Dylech ddarparu cadarnhad eich bod wedi cwblhau'r sesiwn a fynychwyd a chadarnhad o'r pwyntiau sydd ar gael i bob mynychwr o fewn deg diwrnod gwaith i'r sesiwn gael ei chyflwyno. Os na allwch wneud hyn am ba reswm bynnag, dylech roi gwybod i'r mynychwyr am hyn ymlaen llaw. Mae'r cofrestreion eu hunain yn gyfrifol am gofnodi eu bod wedi cwblhau eu DPP eu hunain, ond byddant yn defnyddio'r cadarnhad a ddarperir gennych fel tystiolaeth ategol o'u presenoldeb, felly mae'n bwysig ei ddarparu iddynt cyn gynted â phosibl.

Mae'r disgwyliadau mewn perthynas â chadw cofnodion fel uchod hefyd yn adlewyrchu'r hyn y bydd angen i ddarparwr sydd â statws dros dro ei ddarparu i'r Cyngor Optegol Cyffredinol er mwyn cymeradwyo digwyddiad unigol.

4.

Hysbysebu a chofnodi sesiynau DPP

Gallwch hysbysebu eich sesiynau DPP drwy unrhyw gyfryngau rydych chi'n eu dewis, ond mae llwyfan MyCPD GOC yn ddewis da, sy'n cael ei ddefnyddio gan gofrestreion i gofnodi eu DPP.

Drwy wneud hyn, byddwch yn gallu hysbysebu i'n holl gofrestreion ar unwaith, a bydd cofrestreion yn gallu chwilio am eich sesiwn DPP a mewnfario manylion amdano i'w cofnod DPP os ydynt wedi mynychu. Mae canllaw cam wrth gam ar sut i lanlwytho eich sesiwn DPP i MyCPD ar gael ar wefan GOC.

5.

Archwilio darpariaeth DPP

Mae ein cynllun archwilio darparwyr yn rhedeg yn flynyddol ac yn cynnwys y canlynol:

- meincnodi'r safonau rydym yn eu disgwyl gan ddarparwyr DPP, sy'n nodi ein disgwyliadau a beth allai arwain at atal dros dro.
- archwilio darparwyr ar bapur i ystyried a oes unrhyw rai 'mewn perygl', gan ystyried adborth cofrestreion a chwynion.
- archwiliad wedi'i dargedu o ddarparwyr sy'n cael eu hystyried yn rhai 'mewn perygl'.
- archwilio detholiad o'r holl ddarparwyr eraill i sicrhau bod o leiaf 10% yn cael eu harchwilio bob blwyddyn.

Byddwn yn darparu adborth cyffredinol, dienw i bob darparwr yn dilyn archwiliad, ac adborth penodol i'r darparwyr hynny sy'n destun archwiliad yn uniongyrchol. Pan fydd pryderon yn cael eu nodi, bydd darparwyr yn cael gwybod yn glir beth yw'r rhain ac yn cael cyfle i'w cywiro.

Yn yr achosion prin lle ceir methiannau neu bryderon difrifol, gallwn ddileu statws darparwr llawn naill ai dros dro neu'n barhaol. Mae rhagor o wybodaeth am sut beth yw ein proses

archwilio ar gael yn ein Canllaw i Archwiliad DPP, sydd ar gael
ar ein gwefan.

Atodiad 1

Maes	Dolen i'r Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi (s = safon)
1: Proffesiynoldeb	<ul style="list-style-type: none">• Dangos gofal a thosturi dros eich cleifion (s.4)• Gweithio'n gydweithredol â chydweithwyr er budd cleifion (s.10)• Amddiffyn a diogelu cleifion, cydweithwyr ac eraill rhag niwed (s.11)• Dangos parch a thegwch tuag at eraill a pheidio â gwahaniaethu'n annheg (s.13)• Cynnal cyfrinachedd a pharchu preifatrwydd eich cleifion (s.14)• Cynnal ffiniau priodol â phobl eraill (s.15)• Bod yn onest ac yn ddibynadwy (s.16)• Peidio â niweidio enw da'ch proffesiwn drwy eich ymddygiad (s.17)• Ymateb yn effeithiol i gwynion (s.19)
2: Cyfathrebu	<ul style="list-style-type: none">• Gwrando ar gleifion a sicrhau eu bod wrth galon y penderfyniadau a wneir am eu gofal (s.1)• Cyfathrebu'n effeithiol â'ch cleifion (s.2)• Sicrhau caniatâd dilys (s.3)• Ymateb i gwynion yn effeithiol (s.18)
3: Ymarfer clinigol	<ul style="list-style-type: none">• Cadw'ch gwybodaeth a'ch sgiliau yn gyfredol (s.5)• Cydnabod cyfyngiadau eich cymhwysedd a gweithio o'u mewn (s.6)• Cynnal asesiadau, archwiliadau, triniaethau ac atgyfeiriadau priodol (s.7)
4: Arweinyddiaeth ac atebolrwydd	<ul style="list-style-type: none">• Cynnal cofnodion priodol am eich cleifion (s.8)• Sicrhau bod goruchwyliaeth yn cael ei chynnal yn briodol a'i bod yn cydymffurfio â'r gyfraith (s.9)• Sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer eich cleifion (s.12)
5: DPP Arbenigol	<p>Dylai DPP yn y maes hwn fod yn ddefnyddiol ac yn berthnasol i gofrestreion sydd ag arbenigedd cyflenwi ychwanegol, rhagnodi atodol a/neu arbenigedd rhagnodi annibynnol a/neu arbenigedd lensys cyffwrdd.</p>
6: Risgiau cyfredol6	<p>Rhaid i DPP yn y maes hwn fod yn uniongyrchol berthnasol ac yn ymatebol i'r risg, y diffyg neu'r bwch gwybodaeth penodol a nodwyd gan y GOC.</p>

Atodiad 2:

Safonau ar gyfer darparwyr DPP

Beth yw'r Safonau ar gyfer darparwyr DPP?

Bwriad y Safonau ar gyfer darparwyr DPP yw rhoi dealltwriaeth i ddarparwyr o'n disgwyliadau – yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud – er mwyn dal statws darparwr cymeradwy a darparu DPP i'n cofrestreion. Rydym yn ymddiried mewn darparwyr cymeradwy i ddyfeisio a darparu dysgu effeithiol, ac mae cael y safonau hyn ar waith yn ein helpu i fod yn hyderus bod ein hymddiriedolaeth ar dir cadarn a bod cofrestreion yn gallu dibynnu ar y darparwyr hynny i ddarparu cynnwys sy'n diwallu eu hanghenion.

Os bydd eich darparwr yn cael ei ddewis ar gyfer naill ai ein harchwiliad blynyddol neu archwiliad wedi'i dargedu mewn ymateb i bryderon a godir, byddwn yn archwilio eich darpariaeth yn erbyn y safonau hyn. Mae rhagor o wybodaeth am sut beth yw ein proses archwilio ar gael yn ein Canllaw i Archwilio darparwyr DPP, sydd ar gael ar ein gwefan.

Safon 1: Diogelwch cleifion a phroffesiynoldeb

Mae diogelwch cleifion a phroffesiynoldeb wrth galon ein Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi i sicrhau bod cofrestreion yn cael eu harfogi a'u cefnogi i ymarfer yn gymwys drwy gydol eu bywydau proffesiynol, gan ddarparu gofal llygaid diogel i gleifion a'r cyhoedd. Rydym yn disgwyl hyn beth bynnag fo'r cyd-destun neu'r lleoliad y maent yn gweithio ynddo. Fel darparwr DPP, mae gennych rôl hanfodol i'w chwarae o ran hyrwyddo pwysigrwydd diogelwch a phroffesiynoldeb cleifion, a helpu cofrestreion i ddeall a chyflawni'r safonau sydd eu hangen arnynt.

S1.1 Mae'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno sesiynau yn seiliedig ar Safonau Ymarfer y Cyngor Optegol Cyffredinol ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi, ac yn eu hadlewyrchu.

S1.2 Mae darparwyr yn myfyrio'n flynyddol ar y pwyslais y maent yn ei roi ar ein safonau proffesiynol yng nghyd-destun

ymarfer proffesiynol newydd ac esblygol, y data sydd ar gael a gwybodaeth am risg broffesiynol, ac anghenion a disgwyliadau cleifion, a gwneud addasiadau priodol i sicrhau bod eu darpariaeth yn parhau i fod yn berthnasol, yn gyfredol ac yn ddiogel.

S1.3 Mae darparwyr yn ymgorffori arferion cyfredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn eu gweithgarwch, sy'n adlewyrchu arferion da yn y meysydd clinigol, proffesiynol ac addysgol.

S1.4 Mae darparwyr yn gwreiddio'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r defnydd o'r holl ofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol perthnasol a safonau clinigol a phroffesiynol yn eu darpariaeth.

S1.5 Rhaid i ddarpariaeth DPP gefnogi ac annog cyfranogwyr i fyfyrion ar y profiad dysgu a'i gymhwyso i ymarfer.

S1.6 Mae'r holl weithgarwch DPP a ddarperir yn rhydd o ragfarn annheg, gwrthdaro rhwng buddiannau a dylanwad diangen gan drydydd partion. Os oes gwrthdaro buddiannau anochel, neu lle gallai fod gwrthdaro ymddangosiadol rhwng buddiannau, dylid datgan hyn cyn cynnal y sesiwn.

S1.7 Mae diwylliant o ddysgu gydol oes o ran ymarfer, yn unigol a gydag eraill, yn cael ei feithrin a'i gynnal gan ddarparwyr.

Safon 2: Dysgu diogel a hygyrch

Rhad i'r amgylcheddau dysgu y mae cofrestreion, staff a chleifion yn eu defnyddio wrth ddarparu addysg a hyfforddiant fod yn ddiogel ac yn hygyrch. Mae hyn yn bwysig er mwyn diogelu pawb sy'n astudio, yn gweithio ac yn ymweld â'r amgylcheddau hyn.

S2.1 Mae'r holl amgylcheddau dysgu yn ddiogel ac yn hygyrch i gofrestreion, addysgwyr, goruchwylwyr hyfforddiant, cleifion a gofalwyr, ac yn rhydd o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth.

S2.2 Mae sianeli diogel, hygyrch a phrydlon ar gael ar gyfer mynegi pryderon, ac mae amgylchedd lle mae'n ddiogel i bawb leisio eu barn yn cael ei feithrin a'i gynnal.

S2.3 Rhaid i ddarparwyr weithredu system ar gyfer derbyn ac ymateb i gwynion gan y rhai sy'n defnyddio'r ddarpariaeth DPP.

S2.4 Rhaid i'r holl dechnoleg, dyfeisiau ac offer y gellir eu defnyddio fel rhan o weithgaredd DPP fod yn ddiogel i'w defnyddio a chael eu cynnal mewn cyflwr gweithio da a bod yn hygyrch.

S2.5 Rhaid parchu cyfrinachedd gwybodaeth a geir at ddibenion darparu DPP. Ni ddylid datgelu na defnyddio gwybodaeth o'r fath at ddibenion ar wahân i ddarparu DPP heb ganiatâd penodol y cofrestrai dan sylw neu berson sydd â hawl i weithredu ar ei ran, ac eithrio pan fo angen datgeliad o'r fath yn ôl y gyfraith.

S2.6 Mae'r holl staff sy'n ymwneud â chynllunio a darparu DPP yn gymwys yn broffesiynol i gyflawni eu rolau.

S2.7 Mae gan ddarparwyr yr adnoddau i ddarparu DPP yn unol â'r safonau hyn, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i staff, offer a chyfleusterau, a mynediad at bob math perthnasol o brofiad clinigol i fyfyrwyr.

Safon 3: Datblygu a chyflwyno cynnwys DPP

Cyfrifoldeb darparwyr DPP yw gwneud penderfyniadau ynghylch sut y byddant yn cynllunio ac yn cyflwyno eu DPP i fodloni'r safonau hyn. Rydym yn ceisio galluogi darparwyr i ddylunio, datblygu a darparu eu darpariaeth mewn ffyrdd arloesol, sy'n gallu parhau i esblygu ac adlewyrchu gwelliant parhaus, yn ogystal ag adlewyrchu anghenion cleifion, y sector optegol a systemau iechyd ehangach yn y DU ar yr un pryd â diwallu anghenion cofrestreion. Rydym yn disgwyl y bydd amrywiaeth o agweddau tuag at DPP yn cael eu datblygu.

S3.1 Mae darparwyr yn datblygu ac yn cyflwyno cwricwla yn unol â'r meysydd a nodir yn adran 1 y Canllawiau ar gyfer darparwyr DPP.

S3.2 Mae darparwyr DPP yn nodi'n glir i gofrestreion beth fydd deilliannau dysgu'r gweithgaredd DPP, gan gysylltu'r rhain â'r meysydd sy'n cael sylw.

S3.3 Mae darparwyr DPP yn cynnal proses weithredol o welliant parhaus i fod yn gyfredol ag arferion da addysgol, clinigol a thechnolegol, gan adlewyrchu ymarfer yn sector optegol y DU a newid demograffeg cleifion ac angen clinigol.

S3.4 Mae mecanweithiau gweithredol ar waith i gael y wybodaeth ddiweddaraf am anghenion a disgwyliadau clinigol, proffesiynol, demograffig, polisi a deddfwriaethol, cyflogwyr a chleifion, a gwreiddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon yn y ddarpariaeth DPP.

S3.5 Rhaid i ddarpariaeth DPP beidio â bod yn canolbwyntio ar werthiant na chyflwyno'r nodweddion a'r manteision sy'n ymwneud â un brand neu gynnyrch penodol. Nid yw hyn yn gwahardd cyflwyno datblygiadau newydd yn y farchnad i'r sector, ond rhaid egluro'r gwahaniaeth rhwng cynnwys hyrwyddo/marchnata a chynnwys DPP i'r gynulleidfa.

S3.6 Mae darparwyr yn datblygu eu cynnwys DPP ac yn pennu eu dulliau cyflwyno yng nghyd-destun lle gwasanaethau iechyd llygaid a golwg yn y systemau iechyd ehangach yn y DU.

S3.7 Rhaid i ddarparwyr DPP ymgorffori mecanweithiau i sicrhau bod cofrestreion wedi dangos eu bod wedi cyflawni'r deilliannau dysgu dynodedig yn ddiogel ac yn ddigonol.

S3.8 Mae systemau rheoli effeithiol ar waith i gynllunio, monitro a chofnodi presenoldeb cofrestreion yn ganolog a chwblhau amcanion dysgu, ac elfennau rhyngweithiol asesu.

S3.9 Defnyddir mecanweithiau asesu priodol i asesu ymgysylltiad a dealltwriaeth cofrestreion. Rhaid i farc pasio asesiadau unigol, sy'n arwain at gwblhau'n foddhaol, fod ar lefel briodol i ennyn hyder a sicrhau diogelwch.

S3.10 Rhaid i ddarparwyr roi gwybod mai dim ond pan fyddant wedi cwblhau'r gweithgaredd DPP llawn ac wedi pasio unrhyw asesiadau cysylltiedig y caniateir i gofrestreion ennill pwyntiau DPP sesiwn.

S3.11 Rhaid i ddarparwyr ddangos bod eu hasesiadau'n addas i'r diben ac yn darparu canlyniadau dilys a dibynadwy.

S3.12 Rhaid i ddarparwyr ddangos sut maent yn ystyried adborth am eu sesiynau DPP.

Safon 4: Sicrhau gwerth i fyfyrwyr, cleifion a chyflogwyr

Mae'n hanfodol bod DPP yn dangos gwerth da i gofrestreion ac yn eu harfogi i ymarfer yn hyderus, yn gymwys ac yn ddiogel fel gweithwyr proffesiynol annibynnol yn sector optegol y DU. Rydyn ni'n gwybod bod y sector optegol yn parhau i esblygu, mae anghenion cleifion yn newid ac mae'r ystod o wasanaethau iechyd llygaid a golwg sy'n cael eu darparu hefyd yn parhau i ddatblygu. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ddarparwyr DPP hefyd ystyried y ffactorau hyn wrth ddylunio, datblygu a chyflwyno eu DPP.

A4.1 Mae'r cofrestreion wedi'u harfogi i ymarfer yn gymwys ac yn ddiogel yn y pwnc neu'r maes ymarfer sy'n cael sylw yn y sesiwn DPP.

S4.2 Mae'r gofynion rheoleiddio a roddir ar weithwyr proffesiynol yn cael eu gwneud yn glir bob amser, gan gynnwys wrth farchnata, cofrestru a chadarnhau presenoldeb wedyn.

S4.3 Mae'r holl ddeunydd marchnata a gwybodaeth DPP yn gyfredol, yn berthnasol ac yn gywir.

S4.4 Rhaid i ddarparwyr weithredu bob amser mewn ffordd sy'n cefnogi gofynion y cynllun DPP, a rhaid i'r holl ddarpariaeth DPP gael ei darparu yn unol â'r meini prawf a nodir yn ein Canllawiau ar gyfer darparwyr DPP. Yn benodol, rhaid i ddarparwyr:

- roi gwybod i ddarpar ddefnyddwyr y grŵp(iau) defnyddwyr arfaethedig
bod gan y ddarpariaeth gymeradwyaeth ar gyfer i) grŵp(iau) defnyddwyr penodol;
ii) nifer a math y pwyntiau DPP sydd ar gael; a iii) cynnwys a safon y digwyddiad.
- rhoi gwybod i gofrestrion eu bod wedi cwblhau DPP yn llwyddiannus.
- cofnodi enw, manylion cyswllt a rhif GOC (neu enw defnyddiwr ar gyfer y rhai nad ydynt wedi cofrestru) yr holl gyfranogwyr yn gywir, a sicrhau bod data'n cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 (gan gynnwys GDPR)); gwirio presenoldeb a chofnodi'n gywir bod pawb sy'n bresennol wedi cwblhau DPP yn llwyddiannus; a sicrhau bod data'n cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data berthnasol fel y nodir uchod.
- rhoi tystysgrif gwblhau argraffadwy neu wedi'i hargraffu sy'n cynnwys teitl y DPP, y cod cyfeirnod, y dyddiad cwblhau, y meysydd y cymeradwywyd ar eu cyfer, y math o bwynt DPP (cyffredinol neu arbenigol) ac enw'r darparwr i bawb sy'n cwblhau'r DPP yn llwyddiannus.
- cadw set o gofnodion DPP am gyfnod sylfaenol o chwe blynedd ar ôl diwedd y cylch DPP y maent yn ymwneud ag ef.
Mae rheolau DPP newydd yn nodi yn 20.3:
(1) Rhaid cadw'r cofnodion am o leiaf ddau gyfnod perthnasol cyflawn ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r cofnodion yn ymwneud ag ef.

S4.5 Rhaid i ddarparwyr DPP ddarparu gwybodaeth glir, amserol a hygyrch am y gweithgareddau DPP y maent yn eu darparu i gyfranogwyr (a'r GOC, os gofynnir amdano) a sut maent yn berthnasol i'r meysydd a nodir yn ein Canllawiau ar gyfer darparwyr DPP.

S4.6 Rhaid i dechnegau hyrwyddo fod yn foesebol ac yn dryloyw. Rhaid i hysbysebion fod yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoliadau safonau hysbysebu.

Atodiad 3:

Fformatau enghreifftiol o DDP

Dylid edrych ar y fformatau a restrir yma fel enghreifftiau yn unig; nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr. Bydd y darparwr yn penderfynu faint o bwyntiau sydd ar gael ar gyfer y sesiwn – gweler adran 3 y Canllawiau ar gyfer darparwyr DPP.

Gweithdy sgiliau

Disgrifiad

Mae'r cofrestrai yn ymarfer sgiliau clinigol, neu sgiliau ymarferol eraill gan ddefnyddio'r offer perthnasol ac ymarfer y dechneg lle maen nhw'n cael eu harsylwi a chael adborth 1:1. Mae'r gweithdy'n para o leiaf awr, mae cymhareb briodol o hyfforddwy'r i gofrestreion ar gyfer y sgiliau sy'n cael eu dysgu, mae gan bob cofrestrai fynediad cyfartal at ymarfer ac adborth, a threulir y rhan fwyaf o'r amser yn dysgu'r sgiliau a thechnegau.

Pwyntiau a awgrymir: 3 (rhyngweithiol)

Gweithdy trafod

Disgrifiad

Mae'r cofrestrai yn trafod pwnc a materion mewn grŵp bach lle maen nhw'n cael eu cynnwys yn y drafodaeth. Mae'r drafodaeth yn para awr a maint tebygol y grŵp yw 4-10. Ffordd dda o drafod materion sy'n seiliedig ar wybodaeth a chynnwys gweithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal iechyd.

Pwyntiau a awgrymir: 3 (rhyngweithiol)

Gweithdy aml-safle

Disgrifiad

Arsylwir y cofrestrai yn cwblhau cyfres o weithgareddau mewn gwahanol fannau gweithio sy'n datblygu neu'n cadarnhau cymhwysedd proffesiynol. Maent yn derbyn adborth ac arweiniad 1:1 gan weithiwr proffesiynol sydd wedi cymhwyso'n briodol. Disgwyliwch 4–5 o fannau gweithio.

Pwyntiau a awgrymir: 3 (rhyngweithiol)

Prawf adnabod gweledol

Disgrifiad

Mae'r cofrestrai yn edrych ar luniau o arwyddion clinigol ac yn gwneud penderfyniadau diagnostig a rheoli heb unrhyw gyfle i fyfyrion ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u cymharu â phobl eraill. Mae'r cofrestrai yn adolygu tua 6 llun gyda dau gwestiwn i bob llun.

Pwyntiau a awgrymir: 1 (heb fod yn rhyngweithiol)

Prawf adnabod gweledol a thrafodaeth

Disgrifiad

Mae'r cofrestrai yn gweld delweddau o symptomau clinigol ac yn gwneud penderfyniadau diagnostig a rheoli. Mae'r cofrestrai yn ateb cyfres o gwestiynau ac yna'n cymryd rhan mewn trafodaeth ar y materion a godir gan bob achos.

Pwyntiau a awgrymir: 2 (rhyngweithiol)

Darlith

Disgrifiad

Mae'r cofrestrai yn gwranddo ar gyflwyniad yn bennaf gyda chyfle i ofyn cwestiynau ar y diwedd. Gellir ffrydio'r ddarlith yn fyw. Mae darlith fel arfer yn para 45-50 munud ac efallai y bydd ganddi fwy nag un siaradwr. Bydd amser wedi'i neilltuo ar gyfer cwestiynau ar y diwedd. Dylid defnyddio llwyfan priodol ar gyfer cyflwyno ar-lein.

Pwyntiau a awgrymir: 1 (rhyngweithiol)

Darlith gyda gweithdy trafod

Disgrifiad

Mae'r cofrestrai yn gwranddo ar y ddarlith ac yna'n cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp bach ar wahân gydag arweinydd grŵp am y materion a godwyd yn y ddarlith. Mae'r cofrestreion yn symud i ystafelloedd ymneilltuo neu grwpiau llai ar gyfer y drafodaeth. Dylai'r elfen ddarlith fod yn o leiaf 30 munud.

Pwyntiau a awgrymir: 2 (rhyngweithiol)

Darlith wedi'i recordio

Disgrifiad

Mae'r cofrestrai yn gwylio neu'n gwrando ar recordiad o ddarlith heb unrhyw gyfle i fyfyrion ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u cymharu â phobl eraill. Mae'r dysgu'n para tua awr a dylid ei gadarnhau gan ddefnyddio cwestiynau priodol.

Pwyntiau a awgrymir: 1 (heb fod yn rhyngweithiol)

Gweithdy arddangos a thrafod

Disgrifiad

Mae'r cofrestrai yn gwylio arddangosiad o sgiliau clinigol, sgiliau ymarferol eraill, defnyddio offer perthnasol a chymryd rhan mewn trafodaeth grŵp yn seiliedig ar yr arddangosiad. Dylai fod rhaniad synhwyrol rhwng yr amser a dreulir ar yr elfennau arddangos a thrafod. Ar gyfer nifer fwy o gofrestreion, efallai y bydd angen nifer o grwpiau trafod.

Pwyntiau a awgrymir: 2 (rhyngweithiol)

Taith o amgylch labordy optegol

Disgrifiad

Mae'r cofrestrai yn gwrando ar gyflwyniadau am y broses gweithgynhyrchu gyda chyfle i ofyn cwestiynau. Bydd taith wedi'i threfnu'n dda yn arddangos technegau gweithgynhyrchu a ddefnyddir yn helaeth ac yn cyfeirio at safonau ansawdd perthnasol.

Pwyntiau a awgrymir: 1 (rhyngweithiol)

Dysgu o bell

Disgrifiad

Mae'r cofrestrai yn gweithio ar ei ben ei hun gan ddefnyddio deunyddiau dysgu mewn amrywiaeth o gyfryngau heb unrhyw gyfle i fyfyrion ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u cymharu â phobl eraill. Dylai'r dysgu gymryd tua awr i'w gwblhau.

Pwyntiau a awgrymir: 1 (heb fod yn rhyngweithiol)

Grwpiau adolygu gan gymheiriaid a arweinir gan ddarparwyr

Disgrifiad

Gan ddefnyddio senarios sydd wedi'u paratoi ymlaen llaw, mae'r cofrestrai yn rhyngweithio gyda'u cymheiriaid i drafod a deall prosesau ac arferion gwneud penderfyniadau clinigol, diagnosis, rheoli a chadw cofnodion. Byddant yn myfyrion ar sut y gallai eraill fod wedi mynd i'r afael â'r sefyllfa. Gellir defnyddio'r fformat hwn ar gyfer grwpiau mwy, gyda phrif hwylusydd a chofrestreion mewn grwpiau bach. Dylai'r sesiwn bara am o leiaf awr.

Pwyntiau: 3 (rhyngweithiol)